OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 565

# Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017

## RHAN 5

## Apelau

**Trafodion apêl**

**31.**—(1) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod apêl a gyflwynwyd yn cydymffurfio â gofynion rheoliad 30 o ran yr holl fanylion perthnasol, rhaid iddynt fwrw ymlaen i benderfynu ar yr apêl.

(2) Cyn penderfynu ar yr apêl rhaid i Weinidogion Cymru, gan ganiatáu'r fath gyfnod sy'n rhesymol—

(a) gwahodd yr apelydd ac unrhyw bartïon â buddiant i gyflwyno sylwadau a dogfennau ategol mewn perthynas â'r apêl;

(b) anfon at y partïon â buddiant gopi o unrhyw sylwadau a dogfennau ategol a gyflwynir gan yr apelydd;

(c) anfon at yr apelydd gopi o unrhyw sylwadau a dogfennau ategol a gyflwynir gan y partïon â buddiant;

(d) rhoi cyfle i'r apelydd a'r partïon â buddiant gyflwyno sylwadaethau ar sylwadau a dogfennau ategol ei gilydd i'r person penodedig.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ofyn am wybodaeth bellach gan yr apelydd neu'r partïon â buddiant ar unrhyw adeg.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiystyru unrhyw sylwadau, sylwadaethau neu ddogfennau a gyflwynwyd ac eithrio yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau hyn.

(5) Os yw gwrandawiad llafar neu ymchwiliad lleol i'w gynnal, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) rhoi 6 wythnos o hysbysiad i'r apelydd a'r partïon â buddiant ynghylch y dyddiad, yr amser a'r lle a bennir ar gyfer y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol ac enw'r person a benodir i gynnal y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol (neu, fel y bo'n berthnasol, i benderfynu ar yr apêl); a

(b) rhoi'r fath hysbysiad y maent yn meddwl sy'n briodol i hysbysu'r cyhoedd nid llai na 21 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennir ar gyfer y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol.

(6) Mae gan yr apelydd yr hawl i ymddangos mewn gwrandawiad llafar neu ymchwiliad lleol, a chaiff Gweinidogion Cymru ganiatáu i berson â buddiant ymddangos hefyd.

(7) Wrth i Weinidogion Cymru benderfynu ar apêl—

(a) cânt gadarnhau, amrywio neu ddirymu hysbysiad perthnasol;

(b) cânt gadarnhau neu wrthdroi penderfyniad perthnasol neu unrhyw ran ohono;

(c) rhaid iddynt hysbysu'r apelydd ac unrhyw bartïon eraill i'r apêl.

(8) Caiff yr apelydd dynnu apêl yn ôl ar unrhyw adeg cyn y'i penderfynir.

(9) Y dull ar gyfer tynnu apêl yn ôl yw drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig oddi wrth yr apelydd i Weinidogion Cymru.

(10) Os tynnir apêl yn ôl, mae Gweinidogion Cymru yn peidio â bod o dan ddyletswydd i'w hystyried a'i phenderfynu.

(11) Mae is-adrannau (2) i (5) o adran 250 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) (ymchwiliadau lleol, tystiolaeth a chostau) yn gymwys mewn perthynas â gwrandawiadau neu ymchwiliadau lleol a gynhelir yn unol â rheoliad 33 fel y maent yn gymwys i ymchwiliadau lleol o dan yr adran honno, ond fel pe bai'r cyfeiriadau at y Gweinidog yn gyfeiriadau at Weinidogion Cymru a chan hepgor y cyfeiriadau at awdurdod lleol.

(12) Mae adran 322C o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**2**) (Costau: Cymru) yn gymwys mewn perthynas â gwrandawiad llafar neu ymchwiliad lleol o dan reoliad 30 fel y mae'n gymwys i wrandawiad neu ymchwiliad lleol y cyfeirir ato yn yr adran honno.

(**1**) 1972 p. 70.
(**2**) 1990 p. 8. Fel y'i diwygiwyd gan adran 49 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4).